**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith
Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Delyth Jewell AS

Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig
Paul Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
John Griffiths AS

23 Tachwedd 2022

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

Annwyl gyfeillion,

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sut y bydd yn mynd ati i graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 yn ddiweddar.

Rydym wedi ymrwymo yn ein strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd i geisio cyfleoedd i weithio gyda phwyllgorau eraill y Senedd mewn meysydd o ddiddordeb a rennir a lle y bydd hyn yn gwella'r gwaith craffu. Gan hynny, rydym wedi gofyn i swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i rannu â phwyllgorau eraill y Senedd wybodaeth briffio ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig

berthnasol a gawn er mwyn cefnogi gwaith craffu cyfannol, cydgysylltiedig ar y Gyllideb Ddrafft ar draws y Senedd.

Rydym hefyd wedi gofyn i swyddogion fod yn effro i'r posibilrwydd y bydd ein barn ni yn debyg i eiddo pwyllgor arall o ran materion sy'n pontio cylchoedd gwaith pwyllgorau, a hynny gyda'r bwriad o gynnig argymhellion ar y cyd lle bo'n briodol. Wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23, gwnaethom ni a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig argymhelliad ar y cyd yn ymwneud â thryloywder un ffrwd gyllido benodol - sef mater pwysig o egwyddor i'r ddau bwyllgor. Credaf fod yr argymhelliad ar y cyd yn ychwanegu pwysau at ein safbwyntiau cyffredin.

Byddwn yn dra diolchgar am eich cefnogaeth chithau ar y materion uchod.

Gwnaethom hefyd gytuno y bydd ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn ystyried y materion trawsbynciol a ganlyn:

- 'llinell sylfaen ddiwygiedig' Llywodraeth Cymru, fel y'i gelwir: pa mor glir a chywir ydyw o ran cyflwyno newidiadau mewn gwariant o un flwyddyn i'r llall.
- sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl, ac i ba raddau y mae'r effeithiau hyn yn cael eu hystyried yn Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd i ni fod yr SIIA yn nodi'r dystiolaeth gyd-destunol sy'n cefnogi ei phenderfyniadau gwariant. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod yr SIIA a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 wedi dangos yn glir ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Credwn y dylai Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn ei chrynswth gael ei gynnal a'i gyhoeddi fel dogfen ar wahân.

Gall y materion hyn, neu faterion tebyg iawn, fod yn berthnasol i ystyriaeth eich Pwyllgor o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. Os felly, byddwn yn croesawu unrhyw gyfleoedd ar gyfer craffu cydgysylltiedig. Rwyf wedi gofyn i swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd o'r fath, yn dibynnu ar eich barn chi a barn aelodau eraill eich pwyllgorau.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.